**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 10.30 O'R GLOCH Y BORE 28.1.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Dim

**PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Martin Hughes, a'r Clerc
Cyng. Giles Bentham ar zoom ynghyd ag 1 aelod o'r cyhoedd a 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn yr ystafell.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Rhagfyr 16eg 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**MATERION YN CODI**

**Cyllideb y Cyngor hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026**

Aethpwyd drwy'r gwariant oedd wedi cael ei wneud yn barod i fyny i ddiwedd mis Ionawr 2026

**Cyllideb y Cyngor 2026/27**

Cytunwyd i edrych ar hwn o fis Ebrill 2026 ymlaen.

**Projectau y Cyngor am 2026/27 ynghyd ar gwariant arfaethedig**

Cytunwyd bod angen cael y prisiau i mewn am offer newydd yn y ddau barc chwarae, prisiau am lochesi bws newydd i'w gosod yn lle y rhai presennol ar Ffordd Morfa ynghyd a gosod rhai newydd mewn lleoliadau eraill, eisiau gofyn yng nghyfarfod y Cyngor ar yr 2il o fis nesa i'r grwp rhandiroedd beth yw eu amcan gyfrif o'i gwariant a cytunodd yr Is-Gadeirydd ofyn am bris i gario allan gwellianau ar Llwybr Natur Bron y Graig.

**Cyfraniad gan Gynghorwyr**

Roedd y Cyng. Simon Turner wedi anfon ffigurau i'r is-bwyllgor ariannol o be fyddai y gosti i gael mwy o oleuadau Nadolig cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Cytunodd Aelodau yr is-bwyllgor i beidio a caniatau y gwariant hwn neu byddai y gyllideb oedd wedi ei glustnodi yn mynd drosodd yn sylweddol, ond ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor ar yr 2il o fis nesa. Hefyd awgrymu bod y goleuadau yn cychwyn ger tafarn y Queens at ystad dai Maes Meillion.
Cafwyd y rhybudd o gynnig canlynol gan y Cyng. Martin Hughes ag yn gofyn iddo gael sel bendith y pwyllgor hwn cyn ei roid o flaen y Cyngor Llawn - Bod y Cyngor yn cymeradwyo taliad hyd at £1,700 i Harlech and Ardudwy Leisure Ltd (HAL) gyda'r bwriad o ariannu taliadau yswiriant misol am y cyfnod hyd at ac yn cynnwys diwedd Ebrill 2026. Cytunodd Aelodau yr is-bwyllgor i'r cynnig hwn gael ei wneud yng nghyfarfod y Cyngor ar yr 2il o fis nesa.

**ARWYDDWYD.........................................Cadeirydd**

**DYDDIAD..............................................**